

2012-2013

Dysgu Cymraeg fel ail iaith

Mae pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yn astudio Cymraeg nes eu bod yn 16 oed. Oherwydd bod tua thri chwarter o ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg, mae mwy o ddisgyblion yn sefyll TGAU mewn Cymraeg ail iaith nag mewn Cymraeg iaith gyntaf. Dim ond 15% sy'n sefyll arholiadau mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 16 oed, ond mae 62% yn sefyll TGAU mewn Cymraeg ail iaith. Nid yw bron i chwarter o'r garfan Blwyddyn 11 yn sefyll unrhyw arholiadau TGAU mewn Cymraeg.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg wedi aros yn weddol gyson, ac mae tua 18,000 o oedolion wedi ymrestru. Bu tuedd ar i lawr mewn ymrestriadau ar lefelau mynediad a sylfaen, ond mae nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau hyfedredd wedi cynyddu. Mae nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau arbenigol, fel Cymraeg yn y gweithle, cyrsiau adolygu a chysiau byr wedi cynyddu hefyd.

Mewn addysg ôl-16, mae chwe chanolfan 'Cymraeg i oedolion' yn darparu cyfleoedd cenedlaethol i oedolion ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau neu eu gweithleoedd. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig ystod eang o gyrsiau o gyrsiau lefel mynediad i bobl ddi-Gymraeg i lefel hyfedredd i ddysgwyr Cymraeg uwch. Gall dysgwyr fynychu cyrsiau o ddwyseidd a hyd amrywiol, o gyrsiau blasu a phreswyl byr i gyrsiau dwys o fwy na thair awr yr wythnos dros gyfnod hwy. Yn ogystal, mae'r canolfannau'n cynnig cyrsiau unigol i weithleoedd penodol ac maent wedi datblygu ystod dda o gyrsiau e-ddysgu a dysgu o bell.

Ffigur 1.9: 2013
Cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith



Ffigur 1.10: 2013
Cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith



2012-2013

Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Cymraeg ail iaith?

Nid oes unrhyw ganlyniadau asesiadau cyhoeddusig ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg hyd at saith oed.

Yng nghyfnod allweddol 2, gall ysgolion ddewis rhoi manylion am asesiadau athrawon mewn Cymraeg ail iaith i Lywodraeth Cymru. Yn 2013, aseswyd 95% o ddisgyblion o'r garfan gymwys mewn Cymraeg ail iaith. Canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) mewn Cymraeg ail iaith oedd 68%.

Yn 2013, cwblhaodd tuag 83% o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 asesiadau mewn Cymraeg ail iaith, a chyraeddodd 73% ohonynt y lefel ddisgwyliedig, neu ragori arni. Cwblhaodd yr 17% arall o'r disgyblion asesiadau Cymraeg iaith gyntaf.

Nid yw cyrsiau TGAU mewn Cymraeg ail iaith yn cynhyrchu disgyblion dwyieithog na phobl ifanc sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae Cymraeg yn bwnc statudol i bob disgybl hyd ddiwedd cyfnod allweddol 4. I lawer o ddisgyblion, mae cymwysterau TGAU ail iaith yn ddiweddgu i 11 mlynedd o ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2013, dilynodd 27% o ddisgyblion gyrsiau TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith (sydd ychydig yn uwch nag yn 2012). O'r rhain, cyflawnodd 76% ohonynt raddau A*-C. Mae canlyniadau yn y cwrs byr yn wannach na'r rhai ar gyfer y cwrs llawn. Dilynodd 35% o ddisgyblion y cwrs TGAU byr a chyflawnodd 48% ohonynt raddau A*-C.

Felly, yn gyffredinol, mae nifer gymharol fyr o ddisgyblion yn dilyn y cyrsiau TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Saesneg, fel Ysgol Bryngwyn, mae llawer o ddisgyblion yn sefyll y cwrs TGAU llawn ac yn llwyddo ynddo. Yn Ysgol Bryngwyn, mae 93% o ddisgyblion yn dilyn y cwrs TGAU llawn, ac mae 82% ohonynt yn cyflawni graddau A* i C. Nid yw'n syndod bod disgyblion yn cyrraedd safonau uchel mewn Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion hynny lle mae addysgu yn dda neu'n rhagorol.

Yn 2007, cyhoeddodd Estyn adroddiad cylch gwaith yn dwyn y teitl 'Arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith'. Mae'r adroddiad yn nodi sawl her sy'n gysylltiedig â'r cwrs byr TGAU, ac mae'r diffygion hyn yn berthnasol o hyd. Yn bennaf, maent yn adlewyrchu'r diffyg amser a ddyrennir i addysgu cyrsiau TGAU mewn Cymraeg ail iaith ac ansawdd gwael llawer o'r addysgu hwnnw, y mae'r ddau ohonynt yn effeithio ar gymhelliant disgyblion. Mae prinder athrawon Cymraeg ail iaith â chymwysterau da yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion ar draws y cyfnodau allweddol o hyd.

2012-2013

Canfyddiadau o arolygiadau ysgolion yn ystod y cylch arolygu cyfredol

Mewn Cymraeg ail iaith, yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud dechrau cymharol dda o ran dysgu sut i siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod sesiynau grŵp cyfan, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at siarad Cymraeg.

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 2 yn gwella'n araf ond mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da. Yn aml yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon yn dyrannu digon o amser i wella medrau Cymraeg ail iaith disgyblion, ac nid yw llawer o athrawon yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg eu hunain, yn enwedig gyda disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn cynllunio ar y cyd i sicrhau dilyniant iaith o un flwyddyn i'r llall ond, yn aml, maent yn ailadrodd patrymau brawddegau a geirfa o'r dechrau. Gwneir gormod o ddefnydd o fframiau ysgrifennu sy'n gofyn i ddisgyblion lenwi bylchau, yn hytrach na chynnig cyfleoedd i strwythuro brawddegau syml yn annibynnol. Mae enghreifftiau o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn dda ar draws y cwricwlwm yn brin.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd yn dda mewn ychydig o ysgolion yn unig. Mae safonau yn arbennig o dda yn yr ysgolion hynny lle mae safonau yn rhagorol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Cymraeg ail iaith yn faes pwysig y mae angen ei wella mewn tua un o bob pump o ysgolion, lle mae safonau mor isel fel ein bod yn argymhell bod angen gwelliannau. Hyd yn oed mewn ysgolion lle mae safonau yn dda, mae'n anghyffredin i ddod o hyd i ddisgyblion sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n cynnwys camau gweithredu yn eu cynlluniau gwella ysgol i gynyddu rhuglder yn y Gymraeg. Ychydig iawn ohonynt sy'n cydweithio â sefydliadau fel yr Urdd neu Fentrau Iaith i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer siarad Cymraeg yn anffurfiol y tu allan i oriau ysgol. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion unigol yn llwyddo'n dda pan fydd ganddynt athrawon â chymwysterau gwell ac sy'n dod o hyd i ffyrdd dychmygus i wella medrau disgyblion yn eu gwersi amserlenedig a'r tu allan iddynt.

Beth y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa?

Yn rhy aml, mae'r hyn a welwn mewn llawer o wersi Cymraeg ail iaith yn adlewyrchu technegau addysgu traddodiadol a digyffro.

Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn rhoi pwyslais ar fagu hyder mewn siarad (ac ysgrifennu) yr iaith, yn hytrach na medrau mwy goddefol gwrando a darllen. Maent yn gwneud hyn trwy gysylltu gwaith dosbarth â gweithgareddau allgyrsiol pleserus a thrwy bwysleisio'r Cwricwlwm Cymreig ar draws yr ysgol gyfan, er mwyn i ddisgyblion werthfawrogi a deall hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithgareddau yn yr awyr agored neu gyfnodau preswyl i ffwrdd o'r ysgol, er enghraifft yng ngwersylloedd yr Urdd.

Mae'r ysgolion gorau yn meithrin cysylltiadau â chymheiriaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn lleol ac ymhellach oddi cartref, ac maent yn defnyddio technoleg fodern, fel e-bost a Twitter. Gellir dysgu llawer o'r fethodoleg sy'n cael ei harddangos gan rai darparwyr Cymraeg i oedolion, er enghraifft trwy wahodd siaradwyr Cymraeg o'r gymuned leol i'r ysgol i siarad â'r dysgwyr.

Mae ychydig o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion a rhieni o fanteision dwyieithrwydd yn y farchnad swyddi. Mae gan y gwasanaeth gyrfaoedd ran bwysig i'w chwarae trwy ddefnyddio gwybodaeth y farchnad lafur am y swyddi sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg.

2012-2013

Staffio


Mae denu arbenigwyr Cymraeg â chymwysterau da i addysgu Cymraeg ail iaith yn her i lawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. At ei gilydd, mae gallu cyfyngedig o ran staffio ac arweinyddiaeth. Mewn rhai ysgolion, disgwylir i athrawon nad ydynt yn arbenigwyr pwnc addysgu Cymraeg yn helaeth. Mae gormod o'r athrawon hyn yn brin o hyder a chymhwysedd.

Mae 1,003 o athrawon wedi eu cofrestru i addysgu Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn gweithio mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru¹. O'r rhain, dim ond 67% ohonynt sydd wedi eu hyfforddi i addysgu Cymraeg ac nid yw 23% ohonynt wedi eu hyfforddi i addysgu'r pwnc. Mae hyn yn golygu bod o leiaf 226 o athrawon yn addysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd nad ydynt wedi eu hyfforddi i addysgu'r pwnc, ac nid oes unrhyw wybodaeth am gymwysterau perthnasol y gweddill ohonynt.

Mae lleiafrif o ysgolion yn trefnu rhaglen i helpu staff i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r angen am athrawon rhugl.

Mae'n amlwg o'r ffordd y mae dulliau addysg drochi yn gweithio gyda phlant ifanc o gartrefi di-Gymraeg pan fyddant yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dair neu bedair oed, mai trochi cynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o addysgu nid yn unig ail iaith, ond trydedd a phedwaredd iaith hefyd. Mae plant ifanc yn barod iawn i ddysgu iaith. Daw'n anoddach yn ddiweddarach, er y caiff dulliau trochi eu defnyddio ar bob lefel, gan gynnwys gydag oedolion. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu bod manteision gwybyddol cyffredinol yn gysylltiedig â rhuglder mewn mwy nag un iaith, a'u bod yn mynd y tu hwnt i hyfedredd syml mewn iaith. Fodd bynnag, nid oes gennym y gallu yn y gweithlu addysgu na chymorth dysgu yng Nghymru ar hyn o bryd i alluogi ysgolion a lleoliadau i gynnig addysg drochi i bob plentyn sy'n dysgu Cymraeg fel ail neu drydedd iaith. Nid oes gennym gwricwlwm ychwaith ar gyfer Cymraeg ail iaith sy'n mynnu bod athrawon yn defnyddio dulliau trochi.

Ffigur 1.11:
Canrannau'r athrawon Cymraeg mewn ysgolion
uwchradd yn ôl eu hyfforddiant cychwynno/



67%

wedi eu hyfforddi i addysgu
Cymraeg



23%

yn addysgu Cymraeg ond
heb eu hyfforddi i wneud
hynny



11%

nid yw'r pwnc y maent
wedi ei hyfforddi ynddo yn
hysbys

¹ Crynhoad Ystadegau Blynyddol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Mawrth 2013

2013 - 2014

ddisgyblion wrth chwilio am wybodaeth. Mewn lleiafrif o ysgolion, anaml y bydd disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn gwersi heblaw am Saesneg, ac nid ydynt yn ailddrafftio eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Lle mae ysgrifennu yn gadarn, mae atalnodi a gramadeg yn gywir, a defnyddir geirfa i greu effaith ac i ddal sylw'r darlennydd.

Rhifedd

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r ffocws cynyddol ar ddatblygu rhifedd disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol, er y gwneir hyn o waelodlin isel.

Yn y **Cyfnod Sylfaen**, mae llawer o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd dehongli problemau a fynegir mewn geiriau a phenderfynu pa weithrediad sydd angen iddynt ei ddefnyddio i ddatrys y broblem. Lle ceir safonau da, mae disgyblion yn siarad yn hyderus am y fathemateg a ddefnyddiant ac yn esbonio'r rhesymau dros eu dull gweithredu.



Yng **nghyfnod allweddol 2**, mewn ysgolion lle mae rhifedd yn gadarn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn datrys problemau bywyd go iawn sy'n mynnu cymhwyso ystod o fedrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn cynllunio i brynu celfi newydd ar gyfer eu hystafell ddosbarth ac yn cyfrifo'r gost. Mewn lleiafrif o ysgolion lle mae diffygion mewn rhifedd, nid yw disgyblion yn defnyddio'r medrau a ddysgant mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel mewn pynciau eraill.

TGCh

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn dda i gyflwyno gwybodaeth, ac mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'u medrau mewn TGCh i ymchwilio i wybodaeth mewn pynciau gwahanol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae TGCh yn rhagorol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o offer TGCh yn hyderus yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn adeiladu ar hyn i feistroli medrau mwy cymhleth. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu gemau cyfrifiaduwr syml gan ddefnyddio efelychiadau a thaenlenni. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio ystod ddigon eang o fedrau TGCh fel ymdrin â data, modelu neu ysgrifennu rhaglenni syml wedi'u codio.

Cymraeg

Nid yw safonau mewn Cymraeg fel ail iaith wedi gwella. Yn y **Cyfnod Sylfaen**, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i fwynhau dysgu Cymraeg ac yn ymateb i orchmynion gyda dealltwriaeth. Mae llawer ohonynt yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml yn hyderus. Eleni, mewn ychydig o ysgolion, bu cynnydd mewn sesiynau ymarfer byr, dyddiol i gadw medrau disgyblion yn Gymraeg yn chwim. Mae hyn yn aml yn gwella hyder disgyblion pan fyddant yn siarad am ystod o destunau, ac mae wedi'u galluogi i gynnal sgwrs am gyfnodau hirach, yn enwedig yng **nghyfnod allweddol 2**. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau llefaredd ac ysgrifennu Cymraeg ymhellach na gwersi Cymraeg. Nid oes hyder ganddynt ac maent yn amharod i gyfranogi mewn sgwrsiau byr ynglŷn â phynciau bob dydd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau darllen nad ydynt wedi'u datblygu gystal â'u medrau siarad ac ysgrifennu, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd trafod yr hyn maent wedi'i ddarllen. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â llyfr darllen Cymraeg.

2013-2014

Darpariaeth: Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o ysgolion. Mae hyn yn well na'r llynedd ac yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion o ran gwella'u darpariaeth ar gyfer medrau a sicrhau mwy o gysondeb yn yr ysgol o ran ansawdd yr addysgu.

Mae bron pob ysgol yn cynnig ystod addas o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae strategaethau effeithiol gan lawer o ysgolion i gynorthwyo disgyblion â lefelau medrau llythrennedd a rhifedd isel. Maent yn gwneud cynnydd priodol o ran rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith. Defnyddir hwn gan y rhan fwyaf fel fframwaith ar gyfer strwythuro a monitro'u darpariaeth. Fodd bynnag, dim ond mewn rhyw hanner o ysgolion y mae cydlynu a monitro llythrennedd ar draws pob un o bynciau'r cwricwlwm yn dda. Mae ansawdd y cymorth y mae ysgolion yn ei dderbyn gan bartneriaid y Rhaglen Cymorth Genedlaethol wedi bod yn amrywiol. Mewn ysgolion lle mae cymorth wedi bod yn llai effeithiol, nid yw'r profiad gan bartneriaid o ystod oedran yr ysgol y maent yn ei chynorthwyo, neu nid yw'r un ehangder arbenigedd ganddynt ar draws llythrennedd a rhifedd fel ei gilydd.

Mae diffygion gan leiafrif o ysgolion o ran y modd y maent yn cynllunio ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd, a diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut a ble i gynnwys tasgau rhifedd lefel uwch yn briodol ar draws pynciau ac eithrio mathemateg.

Mae hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, gall disgyblion ymgymryd ag ystod o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol allgyrsiol sy'n eu galluogi i ddatblygu'u defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau mwy cymdeithasol ac anffurfiol. Eleni, canfu arolygwyr fod disgyblion yn gallu astudio Cymraeg ar lefel briodol mewn mwyafrif o ysgolion. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd y llynedd, mewn lleiafrif o ysgolion, gan gynnwys ychydig iawn o ysgolion dwyieithog, nid yw disgyblion yn cael eu herio'n addas ac nid ydynt yn dilyn cymwysterau sy'n briodol i'w gallu yn Gymraeg.

Ffigur 2.7: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Trwy weithio mewn partneriaeth ag elusennau a sefydliadau amgylcheddol a defnyddio siaradwyr gwadd, mae mwyafrif o ysgolion yn cynnig ystod dda o weithgareddau sy'n cefnogi gweithgareddau datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mewn blynyddoedd blaenorol, adroddom fod dinasyddiaeth fyd-eang heb ei datblygu gystal â datblygu cynaliadwy, ond erbyn hyn mae'r ddwy agwedd yn cael sylw tebyg.

Addysgu

Eleni, bu gwelliant bach yn ansawdd yr addysgu, sydd bellach yn dda neu'n well yn hanner yr ysgolion, ond mae llai o ysgolion lle mae'r addysgu yn rhagorol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae addysgu yn rhagorol, mae lefel uchel o gysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws pob pwnc. Mae gweithgareddau yn heriol, ac yn cipio dychymyg disgyblion yn llawn. Mae holi athrawon yn fedrus a threiddgar, ac mae'n archwilio dealltwriaeth disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Mewn rhyw hanner yr ysgolion lle mae'r addysgu yn gyson dda, mae disgwyliadau uchel gan athrawon, maent yn cyflwyno tasgau sydd wedi'u cynllunio'n dda ac yn cynnig holi effeithiol. Fodd bynnag, mewn hanner yr ysgolion mae'r addysgu yn anghyson ac mae gormod o amrywio ym mhrofiadau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae gwendidau mewn cynllunio gwersi, holi, rhediad gwersi neu ddisgwyliadau.

Mae'r asesu yn gyson dda mewn mwyafrif o'r ysgolion a arolygwyd eleni. Mae nodweddion da yn cynnwys adborth clir i ddisgyblion ynglŷn â beth sydd angen ei wella ac arweiniad ar sut i ymateb. Mae athrawon ac arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol neu fwy o her. Fodd bynnag, mae ansawdd yr asesu'n amrywiol mewn lleiafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae anghysondeb yn ansawdd adborth ysgrifenedig ac nid yw disgyblion yn gweithredu'n rheolaidd ar sylwadau athrawon i gywiro a gwella eu gwaith.

2014-2015

Darpariaeth: Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn rhyw hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni. Mae hon yn gyfran is na'r llynedd yn bennaf oherwydd diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ac anghysondeb yn ansawdd yr addysgu neu'r asesu.

Profiadau dysgu

Mae ychydig o ysgolion yn cynnig profiadau dysgu eithriadol i ddisgyblion. Caiff trefniadau cwricwlwm arloesol effaith sylweddol ar ansawdd ac ehangder darpariaeth, ar ddatblygu medrau disgyblion, ac ar eu hagweddau at ddysgu a deilliannau. Mae'r arloesi hwn yn cynnwys gwersi ar wahân sy'n canolbwyntio ar elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau estynedig sy'n ennyn eu diddordeb.

Mae cynlluniau addas gan ryw hanner o ysgolion i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Hefyd, mae'r ysgolion hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n cael anawsterau â'r medrau hyn. Mewn bron hanner o ysgolion, fodd bynnag, mae'r cynllunio a'r cydlynw ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn wan. Yn aml, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio yn cynnig lefel her isel iawn, er enghraifft tasgau lle maent yn copïo testun, yn gwneud cyfrifiadau syml neu'n torri a gludo yn hytrach na dadansoddi a chrynhof gwybodaeth.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae datblygiad medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn fylchog ac wedi'i gydlynw'n wael. Dim ond ychydig iawn o ysgolion sydd wedi coleddu'r defnydd o dechnolegau newydd, fel cyfrifiaduron llechen, ar draws y cwricwlwm.

Yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, er bod agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion at ddysgu Cymraeg, nid oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddatblygu'u hyder yn siarad yr iaith.

Nid yw ychydig o ysgolion dwyieithog yn gwneud yn siŵr bod disgyblion a ddysgodd yn flaenorol trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol

3 yn parhau i wneud digon o gynnydd mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, nid ydynt yn hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r iaith yn ddigon da. Yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, er bod agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg, nid oes digon o gynllunio i ddatblygu'u hyder yn siarad yr iaith.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig ystod eang o gyrsiau i fodloni diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ogystal ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Cynigir darpariaeth addas yn y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.


Addysgu

Ceir addysgu da neu well mewn rhyw hanner o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae amcanion dysgu clir gan athrawon ar gyfer eu gwersi, ac maent yn cynllunio i sicrhau rhediad addas ac amrywiaeth o weithgareddau. Defnyddiant wybodaeth asesu i sicrhau bod gweithgareddau yn bodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn rhoi adborth buddiol iddynt fel eu bod yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir addysgu rhagorol, mae athrawon yn creu awyrgylch lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i fentro a dysgu o'u camgymeriadau. Caiff gwersi eu cynllunio'n ofalus iawn i ddarparu lefelau uchel o her. Mae athrawon yn cipio diddordeb disgyblion gyda gweithgareddau dychmygus a pherthnasol. Gofynnant gwestiynau treiddgar a heriol sy'n annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ac nid yw gweithgareddau'n ddigon heriol. Mewn rhyw hanner y gwersi, nid yw athrawon yn addasu gwaith i ymestyn disgyblion mwy abl nac i gynorthwyo'r rhai is eu gallu. Yn aml, mae rhediad gwersi yn rhy araf. Mae holi gan athrawon yn rhy arwynebol ac yn canolbwyntio gormod ar gofio ffeithiau. Mae ychydig o athrawon yn cynnig gormod o gyfeiriad ac esboniadau i ddisgyblion, yn hytrach na'u hannog i feddwl drostynt eu hunain.

Ffigur 2.11: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



2015-2016

Adran 2:
Crynodebau sector:

Deilliannau: Ysgolion cynradd

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae diffygion pwysig mewn safonau TGCh o hyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llechi a chyfrifiaduron fel mater o drefn i ganfod a chyflwyno gwybodaeth, ac maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o e-ddiogelwch. Eto, nid oes gafael ddigon cadarn gan lawer o ddisgyblion ar yr ystod lawn o fedrau TGCh sy'n briodol ar gyfer eu hoedran, fel creu taenlenni neu reoli a dehongli data. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir safonau TGCh cadarn, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio fformiwlâu mewn taenlenni, er enghraifft wrth gymharu cyfraddau cyfnewid arian cyfred gwahanol.

Mae safonau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhy amrywiol o hyd. Mae argymhellion gan ryw draean o ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymwneud â disgyblion nad ydynt yn defnyddio'u medrau llefareddd Cymraeg yn ddigon da y tu allan i wersi ffurfiol. Er bod llawer o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu Cymraeg ac yn gwybod ymadroddion defnyddiol, nid ydynt yn aml yn eu defnyddio'n gywir neu'n hyderus.

Manteisio ar bob cyfle i gynyddu llythrennedd

Caiff saith ar hugain o ieithoedd eu siarad yn **Ysgol Gynradd Kitchener**, ac mae 86% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau a dulliau addysgu i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i ddatblygu'u medrau llythrennedd. O ganlyniad, mae safonau mewn llythrennedd ar draws yr ysgol wedi codi bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

